OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2008 No. 253

# Gorchymyn Daliadau Amaethyddol (Unedau Cynhyrchu) (Cymru) 2008

### Enwi, cychwyn a dehongli

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Daliadau Amaethyddol (Unedau Cynhyrchu) (Cymru) 2008, daw i rym ar 3 Mawrth 2008 ac mae'n gymwys o ran Cymru.

(2) Yn y Gorchymyn hwn—

mae i'r ymadrodd "hectar cymwys" yr un ystyr ag sydd i'r ymadrodd "*eligible hectare*" yn Erthygl 44(2) o Reoliad y Cyngor 1782/2003;

ystyr "mapiau dynodedig ("*designated maps*") yw'r ddwy gyfrol o fapiau wedi'u Rhif o 1 a 2 gyda phob cyfrol wedi'i marcio "Cyfrol o Fapiau ardaloedd ffermio llai ffafriol yng Nghymru" a chyda Rhif y gyfrol dyddiedig 20 Mai 1999 wedi'i llofnodi gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru ac wedi'i hadneuo yn Swyddfeydd Adran Amaethyddiaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ym Mharc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ;

ystyr "Rheoliad y Cyngor 1782/2003" ("*Council Regulation 1782/2003*") yw Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1782/2003 sy'n sefydlu rheolau cyffredin ar gyfer cynlluniau cymorth uniongyrchol o dan y polisi amaethyddol cyffredin ac sy'n sefydlu cynlluniau cymorth penodol i ffermwyr ac sy'n diwygio Rheoliadau penodol(**1**);

ystyr "taliad Tir Mynydd" ("*Tir Mynydd payment*") yw cymorth ariannol a delir yn unol â Rheoliad 3 o Reoliadau Rhaglenni Datblygu Gwledig (Cymru) 2006(**2**).

ystyr "tir cymwys" ("*eligible land*") yw'r rhan honno o'r tir cymhwysol sydd o fewn ardal lai ffafriol;

ystyr "tir llai ffafriol" ("*less favoured area*") yw tir tan anfantais neu tir tan anfantais ddifrifol;

ystyr "tir tan anfantais" ("*disadvantaged land*") (ac eithrio yn yr ymadrodd "tir tan anfantais ddifrifol") yw unrhyw ardal o dir a ddangosir â lliw glas ar y mapiau dynodedig.

ystyr "tir tan anfantais ddifrifol" ("*severely disadvantaged land*") yw'r ardal o dir a ddangosir â lliw pinc ar y mapiau dynodedig;

### Asesiadau o gynhwysedd cynhyrchiol tir

**2.**—(1) Mae Paragraffau (2) a (3) o'r erthygl hon erthygl yn cael eu heffaith at ddibenion asesu cynhwysedd cynhyrchiol uned o dir amaethyddol a leolir yng Nghymru, er mwyn penderfynu a yw'r uned honno yn uned fasnachol o dir amaethyddol o fewn ystyr paragraff 3(1) o Atodlen 6 i Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1986.

(2) Os gellir defnyddio'r tir dan sylw, pan ffermir ef dan reolaeth gymwys, i gynhyrchu unrhyw dda byw, cnwd âr fferm, cnwd garddwrol yn yr awyr agored, neu ffrwythau fel a grybwyllir yn unrhyw un o gofnodion 1 i 3 yng ngholofn 1 o'r Atodlen i'r Gorchymyn hwn, yna

(**1**) OJ Rhif L270, 21.10.2003, t.1 fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 552/2007 (OJ Rhif L131, 23.5.2007, t.10).

(**2**) O.S. 2006/3343 (Cy.304).

(a) yr uned gynhyrchu a ragnodir o ran y defnydd hwnnw o'r tir fydd yr uned yn y cofnod yng ngholofn 2 o Atodlen 1 gyferbyn â'r cofnod hwnnw, a

(b) y swm a bennir, ar gyfer y cyfnod o 12 mis sy'n dechrau ar 12 Medi 2007, fel yr incwm blynyddol net o'r uned gynhyrchu honno yn y cyfnod hwnnw fydd y swm yn y cofnod yng ngholofn 3 o'r Atodlen honno gyferbyn â'r cofnod hwnnw fel y'i darllenir gydag unrhyw nodyn perthnasol i'r Atodlen honno.

(3) Os yw tir, pan ffermir ef dan reolaeth gymwys, sy'n gallu cynhyrchu incwm blynyddol net yn gymwys i dderbyn taliad Tir Mynydd (fel a grybwyllir yng nghofnod 4 yng ngholofn 1 o'r Atodlen i'r Gorchymyn hwn) neu os oedd wedi'i neilltuo rhag cynhyrchu yn 2006 (fel a grybwyllir yng nghofnod 5 yn y golofn honno), neu os oedd yn hectar cymwys yn 2006 (fel a grybwyllir yng nghofnod 6 yn y golofn honno), yna—

(a) yr uned gynhyrchu a ragnodir o ran y defnydd hwnnw o'r tir fydd yr uned yn y cofnod yng ngholofn 2 o'r Atodlen honno gyferbyn â'r cofnod hwnnw, a

(b) y swm a bennir, ar gyfer y cyfnod o 12 mis sy'n dechrau ar 12 Medi 2007, fel yr incwm blynyddol net o'r uned gynhyrchu honno yn y cyfnod hwnnw fydd y swm yn y cofnod yng ngholofn 3 o'r Atodlen honno gyferbyn â'r cofnod hwnnw.

**Dirymu**

**3.** Dirymir Gorchymyn Daliadau Amaethyddol (Unedau Cynhyrchu) (Cymru) 2007(**3**).

*Elin Jones*
Y Gweinidog dros Faterion Gwledig, un o Weinidogion Cymru

6 Chwefror 2008

(**3**) O.S. 2007/2398, Cy.199.